[sgroliwch i lawr am y Gymraeg / scroll down for Welsh]

# Liberty Protection Safeguards

## NEWSLETTER

17 March 2022

This newsletter provides you with an update on key milestones in our progress to implement the Liberty Protection Safeguards (LPS) in Wales.

**Consultation – 17 March to 7 July 2022**

We are pleased to announce the Welsh Government consultation on the LPS draft regulations for Wales has been published. The consultation will last for 16 weeks and the deadline for responses is 7 July 2022.

All of the consultation documents and additional resources to help you discuss and respond to the consultation can be found here:

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

The Minister for Health and Social Services has issued a Written Statement, which can be accessed here:

https://gov.wales/announcements

Separately, the UK Government is consulting on draft regulations for England and the draft Code of Practice for England and Wales, for the same 16 week period (ending on 7 July). Stakeholders in Wales will also need to respond to the UK Government consultation on the draft Code of Practice for England and Wales. Details of how you can do that can be found here:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Plans for stakeholder engagement in Wales**

Welsh Government will be organising a number of engagement sessions during the consultation period.

| Consultation Weeks | Planned Engagement |
|---|---|
| **Weeks 1-4** | • Dementia Oversight of Implementation and Impact Group – 23 March<br>• LPS Implementation Steering Group for Wales meeting – 29 March<br>• LPS Consultation Launch Live Event – 5 April<br>• LPS Sub-Groups to be re-convened (Workforce / 16&17 year olds / Monitoring and Reporting / Transition) Dates TBC |
| **Weeks 5/6/7** | • Any engagement will take into consideration the requirements of local government pre-election period (14 April to 5 May)<br>• Care Inspectorate for Wales events with providers – 4 and 5 May |
| **Weeks 8-16** | • Engagement with people with lived experienced through the Mental Health Forum for Wales / Dementia Oversight of Implementation and Impact Group / UK Government organised sessions<br>• Children in Wales leading on engagement with children and young people<br>• Engagement sessions with local health boards, NHS trusts and local authorities focussing on the appointment, training and roles and responsibilities of Independent Mental Capacity Advocates / Approved Mental Capacity Professionals / undertaking assessments and making determinations / monitoring and reporting on LPS<br>• Engagement sessions with Allied Health Professions Committee / Chairs of Safeguarding Boards in Wales / All Wales Senior Nurse Advisory Group / advocacy providers / current Best Interest Assessors<br>• Engagement activity with representative bodies and those with specific interest and impacted by the LPS<br>• LPS Implementation Steering Group for Wales meeting. Discussion on emerging themes from the consultation – June date TBC |

**LPS Supporting Documents and Forms**

Alongside the consultation on the draft regulations for Wales, we will be engaging with stakeholders and sharing the draft LPS Workforce Plan and Training Framework and the draft LPS Monitoring and Reporting Strategy. We will also be sharing a set of draft LPS forms. These are non-statutory templates, designed to support practitioners and consistency throughout the LPS process.  Welsh Government is grateful to the group of Welsh practitioners who informed the development of the draft LPS forms and we will use the consultation period to engage and gather

feedback more widely. (UK Government colleagues have drafted their own supporting forms for England.)

### Funding to support preparation for the LPS

Welsh Government will soon be writing to health boards and local authorities to set out the funding strategy for the LPS, and to invite bids for funding to support preparation over the next year.

### FAQ – Regular Update

We are also planning to update the FAQ document published as part of the consultation on a regular basis.

If you have any questions regarding the consultation, please contact the Welsh Government's Mental Health and Vulnerable Groups Mailbox:

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

Best wishes / Cofion gorau,

**Mental Health, Substance Misuse and Vulnerable Groups Division**

**Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

**CYLCHLYTHYR**

17 Mawrth 2022

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cerrig milltir allweddol yn y ein cynnydd at weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) yng Nghymru.

**Ymgynghoriad – 17 Mawrth i 7 Gorffennaf 2022**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft yr LPS i Gymru wedi ei gyhoeddi. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau am16 wythnos a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 7 Gorffennaf 2022.

Mae modd canfod yr holl ddogfennau ymgynghori - a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'ch helpu i drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad - i'w canfod yma:

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, sydd ar gael yma:

https://llyw.cymru/hysbysiadau

Ar wahân, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar reoliadau drafft ar gyfer Lloegr a'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd yr ymgynghoriadau yma yn parhau am yr un cyfnod o 16 wythnos (gan ddod i ben ar 7 Gorffennaf). Bydd angen i randdeiliaid yng Nghymru ymateb yn ogystal i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r wybodaeth ar sut I wneud hynny ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o sesiynau ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori.

| Wythnosau ymgynghori | Cynlluniau ymgysylltu |
|---|---|
| **Wythnos 1-4** | • Grŵp Goruchwylio Gweithredu ac Effaith Dementia – 23 Mawrth<br>• Pwyllgor Llywio - Gweithrediad yr LPS yng Nghymru – 29 Mawrth<br>• Digwyddiad Lansio Byw – Ymgynghoriad yr LPS – 5 Ebrill<br>• Is-Grwpiau'r LPS i ail gynull (Gweithlu / pobl ifanc 16 ac 17 oed / Monitro ac Adrodd / Trawsnewid) Dyddiadau i'w cadarnhau |
| **Wythnos 5/6/7** | • Bydd unrhyw ymgysylltu yn ystyried gofynion cyfnod cyn yr etholiadau llywodraeth leol (14 Ebrill i 5 Mai)<br>• Digwyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru gyda darparwyr – 4 a 5 Mai |
| **Wythnos 8-16** | • Ymgysylltu â phobl â phrofiad personol drwy sesiynau a drefnwyd gan Fforwm Iechyd Meddwl Cymru / y Grŵp Goruchwylio Gweithredu ac Effaith Dementia / sesiynau wedi eu trefnu gan Lywodraeth y DU<br>• Plant yng Nghymru yn arwain ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc<br>• Sesiynau ymgysylltu â byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar: benodi, hyfforddi a rolau a chyfrifoldebau'r IMCA a'r AMCP; cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau; monitro ac adrodd ar yr LPS<br>• Sesiynau ymgysylltu gyda Phwyllgor Proffesiynau Perthynol i Iechyd / Cadeiryddion Byrddau Diogelu yng Nghymru / Grŵp Cynghori Uwch Nyrsys Cymru Gyfan / darparwyr eiriolaeth / Aseswyr Buddiant Gorau cyfredol<br>• Gweithgarwch ymgysylltu â chyrff cynrychioliadol a'r rhai sydd â diddordeb penodol ac sy'n cael eu heffeithio gan yr LPS<br>• Pwyllgor Llywio - Gweithrediad yr LPS yng Nghymru - Trafodaeth ar y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad– Mehefin dyddiad i'w gadarnhau TBC |

**Dogfennau a Ffurflenni Ategol LPS**

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn rhannu: Cynllun a Fframwaith Hyfforddi drafft y Gweithlu'r LPS a'r Strategaeth Monitro ac Adrodd LPS ddrafft. Byddwn hefyd yn rhannu cyfres o ffurflenni LPS drafft. Mae'r rhain yn dempledi anstatudol, wedi'u cynllunio i gefnogi ymarferwyr a chysondeb drwy gydol y broses LPS. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r grŵp o ymarferwyr yng Nghymru a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r ffurflenni LPS drafft a byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i ymgysylltu a chasglu adborth yn ehangach. (Mae cydweithwyr yn Llywodraeth y DU wedi drafftio eu ffurflenni ategol eu hunain ar gyfer Lloegr.)

**Cyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer yr LPS**

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i nodi'r strategaeth ariannu ar gyfer yr LPS, ac i wahodd ceisiadau am arian i gefnogi'r gwaith paratoi dros y flwyddyn nesaf.

**Cwestiynau Cyffredin – Diweddariad Rheolaidd**

Rydym hefyd yn bwriadu diweddaru yn rheolaidd y ddogfen Cwestiynau Cyffredin a gyhoeddir fel rhan o'r ymgynghoriad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, cysylltwch â blwch post Grwpiau Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Llywodraeth Cymru:

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

Cofion gorau,

**Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl, Polisi Camddefnyddio Sylweddau ac Agored i Niwed**